eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

Ebrill 2017 Rhif. 4

## *Cyflwyno aelod newydd o'n tîm*



Ymunodd Marc ag Age Cymru ddechrau'r mis hwn fel Swyddog Datblygu Rhaglen ar gyfer Partneriaethau gyda Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd age Cymru. Bydd Marc yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth eiriolaeth newydd yn ogystal â'r rhai presenol ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ymgeisio am dendrau eiriolaeth. Bydd yn datblygu nifer o weithdai i gefnogi a chynyddu capasiti cyrff y gall fod diddordeb ganddynt mewn tendro am gontractau eiriolaeth. Bydd ei rol hefyd yn cynnwys y gwaith o greu cronfa ddata o ddarparwyr eiriolaeth a bydd hynny o gymorth wrth fonitro faint o wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) sydd ar gael a gweld effaith gweithredu Rhan 10, Eiriolaeth, o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru. Yn ogystal, bydd Marc yn ymgysylltu â defnyddwyr posibl y gwasanaeth EBA er mwyn datblygu rhaglen i gynyddu ymwybyddiaeth o EBA a hawliau pobl, o dan rhai amgylchiadau, i eiriolaeth yn ôl y dyletswyddau a osodir yn y Ddeddf. Bydd Marc yn datblygu adnoddau i gefnogi darparwyr eiriolaeth hefyd wrth i'r dyletswyddau newydd mewn perthynas ag eiriolaeth gael eu gweithredu.

Wedi hyfforddi a gweithio fel athro yn y lle cyntaf, mae Marc wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio mewn Llywodraeth Leol yng Ngorllewin Cymru. Wedi cyfnod yn cydlynu Gwobr Dug Caeredin ar draws Sir Gâr ac yn arwain teithiau, mae wedi gweithio'n bennaf fel rheolwr partneriaethau yn Sir Benfro. Datblygodd gyrfa Marc mewn gwaith partneriaeth gydag esblygiad gwaith aml-asiantaeth, gyda'r nifer o barteriaethau statudol yr oedd Cynghorau Sir yn gyfrifol amdanynt yn tyfu i ddechrau i gynnwys amrediad eang o feysydd ac yna'n cael eu rhesymoli o dan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ei rol ddiweddaraf, roedd yn rheoli tîm o gydlynwyr partneriaethau a oedd yn cefnogi gwahanol elfennau yn y Cynllun Integredig Sengl ac roedd yn darparu cefnogaeth swyddog i aelodau etholedig ar bwyllgorau trosolwg a chraffu.

Gallwch gysylltu â Marc trwy e-bost: marc.forster@agecymru.org.uk neu ffonio 07932 989656

## *Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a Chymwysterau*

Rhan allweddol o waith comisiynu gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yw deall beth yn union yw Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn nghyd-destun y Cod Ymarfer.

Mae toreth o ddiffiniadau gwahanol o'r term proffesiynol ac mae barn gref gan lawer yn y sector eiriolaeth ar y pwnc. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr erthygl hon, edrychwn ar y diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a geir yng Nghod Ymarfer rhan 10:

"...partneriaeth un i un rhwng [unigolyn ac] eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion."

Yr elfen allweddol yn y diffiniad hwn o'r gwasanaeth yw'r un sy'n dweud bod Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol "wedi'i hyfforddi i weithio... am dâl." a chwestiwn sy'n codi dro ar ôl tro gyda chomisiynwyr, darparwyr ac eraill sydd â diddordeb yn y maes ydy beth mae "wedi'i hyfforddi" yn ei feddwl? Mae'r erthygl hon yn ceisio esbonio pa hyfforddiant ffurfiol sydd ar gael ar hyn o bryd i eiriolwyr yng Nghymru. Bydd erthygl ar wahân yn ystyried y safonau ansawdd cyfredol sydd ar gael ar gyfer darparwyr eiriolaeth.

### City and Guilds

Ar hyn o bryd, y prif lwybr hyfforddi achrededig i eiriolwyr proffesiynol neu wirfoddol yw dilyn cymhwyster wedi'i achredu gan City and Guilds.

I grynhoi, cynigir dau brif gymhwyster mewn eiriolaeth, ar Lefel 2 a Lefel 3. Mae manylion llawn y cyrsiau hyn ar gael ar wefan City and Guilds.

Mae'r dyfarniad Lefel 2 yn "ddelfrydol ar gyfer rhywun sydd eisiau cael gwybodaeth am Eiriolaeth Annibynnol. Efallai y byddant am i'r cymhwyster hwn fod yn gam cyntaf i mewn i'r maes neu am ddeall egwyddorion sylfaenol Eiriolaeth Annibynnol".

Mae tystysgrif a diploma Lefel 3 ar gyfer "dysgwyr sy'n gweithio ar hyn o bryd fel Eiriolwyr Annibynnol, naill ai am dâl neu'n wirfoddol."

Ar gyfer y dystysgrif a'r ddiploma, "rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r unedau gorfodol yn ogystal â rhai o'r unedau dewisol. Caiff y cymwysterau hyn eu hasesu trwy Bortffolio Tystiolaeth".

Fel sy'n wir gyda'r rhan fwyaf o gymwysterau City and Guilds, mae llwybrau amrywiol y gall dysgwyr eu dilyn er mwyn ennill naill ai'r Dystysgrif neu'r Ddiploma. Yn ogystal â'r math o eiriolaeth y byddant yn ei hastudio (Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol IMCA) , Eirioli Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc a.y.y.b.), bydd amrywio hefyd ar sail diddordebau unigolion wrth iddynt wneud dewisiadau ar gyfer elfen gredydol y Ddiploma. Fodd bynnag, mae'r tystysgrifau yn rhoi llwybr â ffocws benodol iddynt, er enghraifft byddai disgwyl i rywun sy'n gweithio mewn gwasanaethau Eiriolaeth penodol, megis IMCA, gwblhau unedau sy'n ymwneud yn benodol â'r ffrwd waith hon er mwyn gallu cwblhau'r cymhwyster. Ym mhob un o'r tystysgrifau Lefel 3, mae'r modiwlau canlynol yn orfodol ac wedi eu cynllunio i osod sylfeini o ran egwyddorion eiriolaeth:

301 Pwrpas ac egwyddorion Eiriolaeth Annibynnol
302 Darparu cefnogaeth Eirioli Annibynnol
303 Cynnal y berthynas Eirioli Annibynnol
304 Deall cyd-destun cymdeithasol Eiriolaeth Annibynnol

I'w barhau...

I'r rhai sydd am archwilio cynnwys llawn y pecynnau hyfforddi ymhellach, maent ar gael trwy ddilyn y ddolen hon i gopi o lawlyfr y cwrs.

Mae Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd (RhEEE) wedi cysylltu â City and Guilds er mwyn trafod pa gamau sy'n cael eu cymryd i greu tystysgrif yn benodol i gyfateb i'r un sydd ar gael ar hyn o bryd sy'n dwyn yr enw Tystysgrif Lefel 3 mewn Eirioli Annibynnol (Darparu Cymorth Eirioli Annibynnol o dan Ddeddf Gofal 2014). Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n cynnal adolygiad trylwyr o 'r holl gymwysterau yn y sector Gofal Cymdeithasol, yn cynnwys maes eiriolaeth. Mae hon yn broses sy'n parhau a bydd yn sicr o arwain at greu cymwysterau sydd wedi'u diweddaru. Bydd RhEEE yn rhoi gwybod i'n holl fudd-ddeiliaid am unrhyw gynnydd ar y mater hwn pan ddaw'n wybyddus.

Hyfforddiant trwy lwybr oddi allan i'r City and Guilds:

Mae ffurfiau eraill ar hyfforddiant ar gael. Mae nifer o ddarparwyr y gellir eu canfod trwy beiriannau chwilio ar y rhyngrwyd yn darparu hyfforddiant mewn nifer o bynciau sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth yn ei ffurfiau amrywiol.

Hyfforddi a Sicrhau Ansawdd

Mae'n werth nodi, er budd y rhai sy'n comisiynu neu'n darparu eiriolaeth ac sy'n ystyried y Marc Perfformiad o Ansawdd, er mwyn ennill y marc hwn, rhaid bod:

"Pob eiriolwr yn cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu personol cyfredol perthnasol, yn cynnwys hyfforddiant er mwyn ateb unrhyw ofynion statudol." (Ffynhonnell: Llyfr Gwaith Asesu'r Marc Perfformiad o Ansawdd (3ydd argraffiad) tudalen 24).

Mae angen i unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau EBA sydd naill ai'n meddu ar neu'n gweithio tuag at y Marc Perfformiad o Ansawdd gael datganiad polisi ynglyn â'r cyfnod amser a ganiateir i eiriolwyr sydd heb gymhwyster neu rai a gyflogir o'r newydd gwblhau hyfforddiant hyd at y safon a gytunwyd. Cyfrifoldeb y bobl sy'n cynllunio manyleb tendr a'r rhai sy'n ymateb iddi fyddai amlinellu sut y buasent yn cyrraedd y safonau angenrheidiol o dan y Marc Perfformiad o Ansawdd o safbwynt 'cefnogi eiriolwyr' gyda golwg ar hyfforddiant proffesiynol i eiriolwyr.

**Cyfeirnodau**

1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) tudalen 11

**Huw Davies, Age Cymru**

## *Pa mor barod yw'r Comisiynwyr i gydymffurfio â'u gofynion statudol newydd?*

Mae Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd (RhEEE) yn cael ei gwerthuso'n annibynnol gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (SIGCC) ym Mhrifysgol De Cymru. Mae SIGCC wedi datblygu erfyn hunanasesu ar gyfer comisiynwyr ac un arall ar gyfer darparwyr eiriolaeth, er mwyn galluogi cyrff i wirio pa mor barod ydynt i gydymffurfio â Chod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) a'i fwriad strategol.

Mae'r Erfyn Hunanasesu wedi ei osod mewn pedair adran, gan adlewyrchu camau gwahanol y cylch comisiynu: dadansoddi, cynllunio, gwneud ac adolygu. Mae'n adeiladu ar waith y Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol (SCIE) a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn Lloegr a greodd erfyn hunanasesu tebyg ar gyfer eiriolaeth annibynnol – gweler http://bit.ly/SCIEtool . Nid erfyn archwilio y gellir ei ddefnyddio i gynnal asesiad 'rheoli perfformiad' yw hwn; yn hytrach, dylai helpu RhEEE i gynorthwyo comisiynwyr i gyflawni dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

I'w barhau...

Anfonodd tîm RhEEE yr holiadur hunanasesu at gomisiynwyr ym mis Tachwedd 2015 ac wrth i dimau comisiynu ddod ar ei gilydd i weithio trwy'r erfyn a chwblhau eu hasesiadau eu hunain, mae ymatebion yn dechrau cael eu dychwelyd atom. Bydd y canlyniadau yn amlygu cryfderau ac anghenion datblygu comisiynwyr unigol, timau a chyrff mewn perthynas â chomisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA). Byddant hefyd yn galluogi tîm RhEEE i deilwra ei gefnogaeth er mwyn cyfateb i anghenion comisiynwyr, ac yn darparu cyfleoedd i gomisiynwyr drafod unrhyw gefnogaeth y gallant fod ei hangen gan RhEEE. Yn ogystal, bydd y canfyddiadau yn galluogi SIGCC i osod gwaelodlin ar gyfer gwerthuso Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd.

Mae trafodaethau y mae tîm RhEEE wedi'u cael gyda chomisiynwyr hyd yn hyn yn awgrymu y bydd y materion canlynol, ymhlith eraill, yn rhai y bydd angen sylw arnynt: adnabod yr angen am wasanaethau eirioli, cydgynhyrchu, rheoli marchnad, cytundebu a chasglu data. Mae gan rai gomisiynwyr wybodaeth a phrofiad gwerthfawr mewn rhai meysydd eisoes, a gellid rhannu hyn yn ehangach er mwyn helpu eraill i ddatblygu.

Mae nifer o gomisiynwyr wedi dweud yn anffurfiol y byddent yn hoffi rhannu eu profiadau gyda chomisiynwyr eraill ar draws eu rhanbarthau eu hunain a ledled Cymru a dysgu ganddynt hwythau. Maent hefyd wedi mynegi eu cefnogaeth yn anffurfiol i gysondeb o ran cael gafael ar wasanaeth, ansawdd a chanlyniadau i ddinasyddion ledled Cymru, i osgoi loteri cod post cyn belled â phosibl, ac i gadw elfen o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau lleol.

Hoffai tîm RHEEE dynnu o'r canlyniadau hyn er mwyn: darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gan gymheiriaid ymhlith comisiynwyr gwasanaethau eirioli; annog lledaenu dysgu ac arfer dda mewn comisiynu gwasanaethau eirioli, a chyfrannu at ddatblygu trefn genedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) ledled Cymru, y gellir eu teilwra yn ôl amgylchiadau lleol.

Fel cam cyntaf, mae tîm RhEEE eisoes yn cynnal gweithdai yn Llanbedr Pont Steffan, Casnewydd a Llanelwy, gan ddod â chomisiynwyr sy'n gyfrifol am wasanaethau eirioli ac eraill ynghyd ar gyfer hynny. Mae gwybodaeth bellach am y gweithdai ar gael gan Swyddogion Datblygu Rhaglen ar gyfer Comisiynu RhEEE.

Mae fframwaith genedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau EBA yn un o ganlyniadau RhEEE sydd wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Byddai angen i hwn gael ei gydgynhyrchu gyda chomisiynwyr eu hunain a budd-ddeiliaid eraill (dinasyddion, darparwyr gwasanaeth a.y.y.b.), a byddai angen iddo allu cael ei addasu yn ôl yr amgylchiadau gwahanol a geir mewn gwahanol rannau o Gymru. Byddai hyn yn cyfateb yn dda i'r dymuniad a fynegwyd gan gomisiynwyr am gydbwysedd rhwng cysondeb a hyblygrwydd wrth gomisiynu gwasanaethau EBA ledled Cymru. Bydd y gweithdai yn rhoi cyfle i gomisiynwyr gyfrannu at gamau cyntaf datblygiad trefn genedlaethol.

Pan fydd rhagor o ganlyniadau'r arolwg wedi dod i law, byddwn yn cyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau yn ddienw ac wedi eu crynhoi - yng nghylchlythyr mis Mai, o bosibl. Gwyliwch y gofod!

**Valerie Billingham, Age Cymru**

I'w barhau...

## *Deall cyd-gynhyrchu, a'i rôl mewn comisiynu eiriolaeth - rhan 2*

Yn Rhan 1 y gyfres hon, a gyhoeddwyd yn ein cylchlythyr ym mis Ionawr 2017, rhoddwyd amlinelliad cryno o theori cydgynhyrchu ar lefelau unigolion a sefydliadol/strategol, a thrwy ddulliau disgrifiadol, canolradd a thrawsnewidiol - gan nodi'r dull olaf fel yr un sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn. Gan adeiladu ar hynny, sut dylai cydgynhyrchu gwasanaethau eirioli weithio wrth gomisiynu?

Mae adnodd dysgu Cyngor Gofal Cymru - Cynllunio, Comisiynu a Chydgynhyrchu[1] yn disgrifio dwy ffordd wahanol y gall comisiynwyr gyflwyno cydgynhyrchu i wasanaethau cyhoeddus:

Drwy gomisiynu ar gyfer cydgynhyrchu – pan fo comisiynwyr yn ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion cydgynhyrchu gael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau y maen nhw'n eu prynu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y darparwyr y maen nhw'n comisiynu gwasanaethau ganddynt yn annog a galluogi'r broses o gynnwys pobl yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau ac yn y ffordd y byddant yn gweithredu er mwyn cyflawni canlyniadau personol. Disgwylir i ddarparwyr gynnwys pobl hefyd yn y broses o werthuso ac adolygu prosesau.

Drwy gydgynhyrchu comisiynu – pan fo pobl yn cael eu cynnwys yn y broses gomisiynu o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r broses asesu (boed yn unigol neu fel rhan o'r asesiad poblogaeth ehangach), gan gytuno ar yr hyn sydd angen newid er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau wella bywydau pobl, cynllunio gwasanaethau ar y cyd a chymryd rhan mewn adolygiadau a gwerthusiadau. Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r comisiynwyr eu hunain yn rhan o'r broses gydgynhyrchu ac maen nhw'n cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr yn y gwaith comisiynu o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r papur yn egluro nad dewisiadau 'naill ai/neu' yw'r rhain. Yn hytrach, mae angen y ddau ac "mae'n ofynnol cael dull system gyfan ar gyfer cydgynhyrchu, sydd, fel y mae'r Cod (Rhan 2) yn pwysleisio, angen camau cadarnhaol ar lefel unigol, cymunedol, ar lefel gwasanaeth, yn sefydliadol ac yn strategol."

Yng nghylchlythyr cyntaf RhEEE (mis Medi 2016), rhoesom amlinelliad cryno o'r cylch comisiynu safonol sydd â phedwar cam - "dadansoddi-cynllunio-gwneud/sicrhau gwasanaethau-adolygu" a'r cylch ymgysylltu. Roedd y darlun a ddefnyddiwyd gennym yn gosod dinasyddion yn y canol, gyda saeth gron yn arwydd y dylent gael eu cynnwys ym mhob cam o'r cylch.

Mae model comisiynu amgen tri cham a gynhyrchwyd gan y New Economics Foundation (nef) yn ennyn diddordeb yn y byd comisiynu. Amlinellir y model hwn yn Commissioning for Outcomes and Co-production: A practical guide for local authorities[2]. Dywed nef bod "ein hagwedd at gomisiynu yn bwrw golwg newydd ar y camau y gallai comisiynydd fynd trwyddynt, a'r bwriadau creiddiol a'r dulliau a roddir ar waith wrth gomisiynu."

Gosodir tair elfen yng nghanol y model: cydgynhyrchu, partneriaeth a myfyrio a gwerthuso. Y bwriad yw y dylid cymhwyso'r rhain yn gyson trwy gydol y broses gomisiynu.

Nodir tri cham comisiynu yn hytrach na'r pedwar safonol: mewn-weled, cynllunio a darparu. Mae cylch allanol y model yn disgrifio tri phrif nod comisiynu: atal, llesiant a gwerth go iawn am arian.

Seilir model comisiynu Nef ar "fodel deinamig o lesiant" sydd â theori seicolegol gadarn yn sail iddo. Rhagdybir bod lles unigolyn yn ffynnu pan fydd ei angen am ymreolaeth, cymhwysedd (neu hunan-barch/ystyr) a pherthynas wedi eu diwallu, gyda chefnogaeth amodau allanol cadarnhaol ac adnoddau personol digonol.

I'w barhau...

Trwy alluogi'r broses hon, gwelir bod cydgynhyrchu yn cefnogi ac yn gwella lles unigolion a chymunedau.

Mae Adran 2 papur Nef yn rhoi canllaw manwl ac ymarferol ar gomisiynu ar gyfer cydgynhyrchu a chanlyniadau. Dywed yn glir bod cydgynhyrchu comisiynu yn arfer y mae angen meddwl a chynllunio gofalus ar ei gyfer os yw am gael ei wneud yn llwyddiannus ac yn effeithiol. Mae'n bwysig bod y papur yn esbonio bod:

“cydgynhyrchu comisiynu yn golygu mwy na chynnwys pobl yn y rhannau traddodiadol o'r broses gaffael, megis cyfweld â darparwyr. Mae'n golygu bod pobl yn cymryd rhan trwy gydol y cylch comisiynu. Dylent helpu i leisio anghenion a dyheadau lleol, adnabod asedau lleol, gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r fframwaith canlyniadau a nodweddion ansawdd, penderfynu pa ddarparwyr a ddewisir a monitro a gwerthuso eu perfformiad. Mae cydgynhyrchu yn ddiwylliant ac yn ffordd o feddwl sy'n gorfod treiddio i mewn i'r broses benderfynu trwy gydol y cylch, ac nid yw'n gyfyngedig i ddigwyddiadau ymgysylltu penodol neu ymarferion cynnwys defnyddwyr.”

Mae'r ddyletswydd newydd i gomisiynu gwasanaethau EBA, ynghyd â chynnwys cydgomisiynu yn egwyddor greiddiol yn y Ddeddf a'r pwyslais ar gydgynhyrchu trwy'r holl Godau Ymarfer, yn rhoi cyfle amserol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried cyflwyno agwedd gydgynhyrchiol tuag at gomisiynu eiriolaeth. Gyda mwy o ddosbarthiadau arbenigwyr mewn cydgynhyrchu yn cael eu cynnal gan Gyngor Gofal Cymru ar hyn o bryd, ynghyd â'r dosbarthiadau arbenigwyr mewn eiriolaeth a Deddf GCLl, ymddengys bod yr amser wedi dod i gydgynhyrchu comisiynu eiriolaeth.

**Adnoddau**

1. Cynllunio, Comisiynu a Chydgynhyrchu, Cyngor Gofal Cymru: http://bit.ly/CCcopro

2. Commissioning for Outcomes and Co-production: A practical guide for local authorities, New Economics Foundation: http://bit.ly/NEFcopro

**Paul Swann, Age Cymru**

## *Ymgynghori ynghylch canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 y Ddeddf*

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar gyfrolau 5 a 6 canllawiau statudol Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl. Mae’r ymgynghoriad yn ystyried y canllawiau sydd i helpu awdurdodau lleol a’u partneriaid roi Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith.

Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ynghylch yr hyn ddylai ddigwydd os bydd unigolyn yn bryderus ynglŷn â lles plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl ac mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y broses sydd i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar **25 Ebrill 2017**.

Gallwch weld ac ymateb i'r ymgynghoriad yma.

## *Canllawiau ar ymdrin ag achosion unigol er mwyn diogelu plant ac oedolion mewn perygl*

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau i helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ynghylch yr hyn ddylai ddigwydd os bydd unigolyn yn bryderus ynglŷn â lles plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:

Ymgynghoriad canllawiau ar ymdrin ag achosion unigol er mwyn diogelu plant ac oedolion mewn perygl

## *Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid - Cyhoeddi'r adroddiad terfynol a Mesur drafft*

Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Alluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid ar 13 Mawrth 2017. Yn yr adroddiad, mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell y dylid rhoi cynllun newydd yn lle'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid - ac mae'r cynllun hwnnw wedi ei alw yn Trefniadau Diogelu Rhyddid. Mae'r mesur drafft hefyd yn gwneud diwygiadau ehangach i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn sicrhau bod gan bobl fwy o amddiffynfa rhag cael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith asesiad effaith, dadansoddiad o'r ymgynghoriad, crynodeb o'r adroddiad a fersiwn hawdd ei ddarllen o'r crynodeb.

Mae'r adroddiad terfynol (sy'n cynnwys y mesur drafft), yn ogystal â dogfennau eraill y prosiect ar gael ar eu gwefan yn Mental Capacity and DoLS.

Bydd yr adroddiad a'r mesur drafft yn cael eu hystyried nawr gan y Llywodraeth.

## *Gwefannau Defnyddiol*

**Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru**

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am Raglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd a Chylchlythyrau Eiriolaeth.

Gwefan Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Euraidd.

**Cyngor Gofal Cymru**

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol er mwyn cefnogi'r broses o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith yn llawn. Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu yn cynnwys deunyddiau hyfforddi mewn ffurfiau gwahanol i helpu gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i roi'r ddeddf ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Cyngor Gofal Cymru

**Social Care Institute for Excellence (SCIE)**

Adnodd ar gyfer y Deyrnas Gyfunol - arfer dda a gwybodaeth gyda golwg ar wella gwasanaethau gofal cymdeithasol gan ganolbwyntio ar rôl ganolog pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

http://www.scie.org.uk/

I'w barhau...

**Sefydliad Hawliau Dynol Prydain**

Gwybodaeth ar gael am ddiweddariadau, digwyddiadau, hyfforddi ac adnoddau.

http://www.bihr.org.uk/

**Cyngor ar Bopeth**

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim i unrhyw un mewn perthynas â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf am ymgyrchu, polisi a'r cyfryngau.

http://www.citizensadvice.org.uk/

## *Llinell Gyngor rad ac am ddim Age Cymru*

Gall llinell gyngor Age Cymru ddarparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai y bydd rhywun eisiau cyngor ynghylch faint dylent fod yn ei dalu am ofal i aelod o'r teulu? Neu efallai y byddant eisiau gwybod a ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Age Cymru gyda'r holl faterion hyn, a mwy - ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

**Time: Our Gift To You**

Mae Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn (OPAAL) wedi lansio cyhoeddiad newydd sy'n adrodd cyfres o straeon am eirioli gwirfoddol o'i rhaglen arloesol Cancer, Older People and Advocacy. Mae "Time: Our Gift To You", yn cynnwys 19 o straeon gwahanol am bobl hŷn a effeithiwyd gan gancr yn cefnogi eu cyfoedion.

Esbonia Claire pam mae hi'n gwirfoddoli: "Llynedd, penderfynais wirfoddoli fel eiriolwr cymheiriaid gan fy mod i'n gallu gweld â'm llygaid fy hun, wrth i mi fynd trwy fy nhriniaeth, bod llawer bobl yn ymbalfalu eu ffordd trwy'r system gofal iechyd yn ein hardal ni ac yn cael trafferth cael gafael ar y gefnogaeth oedd ei hangen arnynt. Ymddangosai'n amlwg i mi y gallai rhywun sydd wedi derbyn triniaeth am gancr fod mewn sefyllfa gref iawn i allu cefnogi rhywun arall sy'n mynd trwy driniaeth a phrofiad cyfatebol neu debyg."

Dywed Claire ymhellach: "mae gweithio gyda Sally wedi rhoi boddhad mawr i mi hefyd. Mae triniaeth am gancr yn aml yn dechnegol ac yn gymhleth iawn a thros amser, cewch eich gorfodi i ddod yn arbenigwr ar y system gofal iechyd a sut i gael cefnogaeth. Rwy'n hynod falch fy mod yn gallu troi fy mhrofiad at ddefnydd gwerth chweil."

Gallwch ddarllen straeon go iawn rhai o'r bobl hŷn sydd wedi cael cefnogaeth gan wirfoddolwyr cancr, pobl hŷn ac eiriolaeth yn Facing Cancer Together.

Ymunwch ag OPAAL i drafod eiriolaeth ar Twitter trwy ddefnyddio'r hashnod #advocacyworks.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Marie McWilliams, marie@opaal.org.uk

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

**Reflections of an advocate**

Rhannwyd y 'myfyrdodau eiriolwr' hyn yn yng Nghynhadledd Eiriolaeth Genedlaethol 2016 ac roeddent wedi taro tant. Cred OPAAL y bydd y geiriau hyn yn galonogol i eiriolwyr ac felly maent wedi gosod y testun ar eu gwefan gyda diolch i Age UK Caergrawnt a Peterborough.

**Diogelu: diweddariadau, canllawiau statudol a thempledi**

Mae tair cyfrol bellach o ganllawiau diogelu statudol wedi eu hychwanegu at yr Hyb. Pedair cyfrol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: 1) Cyflwyniad a Throsolwg, 2) Adolygiadau Ymarfer Plant, 3) Adolygiadau Ymarfer Oedolion a 4) Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Ochr yn ochr â'r canllawiau statudol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cyfres o dempledi y gellir eu defnyddio i gefnogi adolygiadau ymarfer plant ac oedolion. Gallwch eu canfod ar dudalen Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol ar yr Hyb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi diweddariad hefyd ar y ddeddfwriaeth ar gyfer Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ddiogelu. Roedd y cyhoeddiad yn diweddaru gwybodaeth am ardaloedd y byrddau diogelu, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a Gweithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan. Gallwch ddarllen y diweddariad yma.

**Cysylltwch â ni…**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylw neu gwestiwn am yr erthyglau**
- **Os oes rhywbeth yr hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost** ffion.jones@agecymru.org.uk

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i addasu erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw pob barn a fynegir yn y cylchlythyr hwn yn cyfateb i farn Age Cymru o anghenraid.**

**Derbynir hysbysebion a mewnosodiadau gyda phob ewyllys da, ond nid yw Age Cymru yn eu cymeradwyo na'u hargymell trwy hynny.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Age Cymru,**
**Ty John Pathy,**
**13/14 Cwrt Neptune,**
**Ffordd Vanguard,**
**Caerdydd, CF24 5PJ**

**t: 029 2043 1555**
**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2017

Age Cymru — Creu Cymru oed gyfeillgar / Creating an age friendly Wales

diverse cymru — Promoting equality for all / Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.